The British Horse Society
Cymru
Registered Charity
No 210504

Comisiwn Coedwigaeth Cymru
Forestry Commission Wales

CÔD YMARFER AR GYFER FARCHOGWYR YNG NGHOETIROEDD LLYWODRAETH CYNULLIAD CYMRU WEDI'I BARATOI GAN COMISIWN COEDWIGAETH CYMRU A CHYMDEITHAS CEFFYLAU PRYDAIN YNG NGHYMRU

CYFARWYDDYD

- Marchogaeth ar ffyrdd goedwig, marchlwybrau, llwybrau marchogaeth penodedig/cyfeirbwyntiedig a llwybrau amlddefnyddwyr yn unig oni bai eu bod wedi'u marcio'n anaddas i geffylau. Os ydych yn dymuno defnyddio ffyrdd eraill cysylltwch â'r Swyddfa Rhanbarth Goedwig neu Rheolwr Ardal Lleol yn gyntaf, ac yna gwnewch yn sïwr fod y llwybrau'n ddiogel cyn eu defnyddio.
- Os ydych am ddefnyddio ardal lle does dim ond mynediad drwy drwydded (gweler y map) gwnewch gais am ganiatâd oddi wrth Swyddfa Rhanbarth Goedwig neu'r Rheolwr Ardal Lleol.
- Cofiwch fod mynediad i rai ardaloedd drwy Llwybrau Dynodedig yn unig - os oes unrhyw amheuaeth cysylltwch â'r Swyddfa Rhanbarth Leol neu'r Rheolwr Ardal Leol.
- Dylech barchu ddefnyddwyr eraill yn y goedwig a bod yn gyfeillgar.
- Cofiwch fod cerbydau'n defnyddio'r goedwig hefyd.
- Peidiwch ag adeiladu rhwystrau a chlwydi neu geisio neidio teisi o bren.
- Dilynwch y Côd Cefn Gwlad.
- Rhowch wybod am unrhyw ddamwain neu fethiant agos i'r Swyddfa Rhanbarth Coedwig neu'r Rheolwr Ardal Leol berthnasol yn ôl ble ddigwyddodd y digwyddiad.
- Talwch sylw i unrhyw arwyddion rhybudd a chadwch at eu cyfarwyddyd.
- Marchogwch ar gerdded neu ar duth oni bai eich bod ar un o'r traciau ' rhygyng a charlam' cyfeirbwyntiedig prin,
- Peidiwch â marchogaeth ar safleoedd picnic a llwybrau dynodedig.
- Gadewch feysydd parcio a mynedfeydd yn lân a thaclus.

- Gadewch eich faniau ceffylau mewn ardaloedd dynodedig os ar gael gan gofio gadael ddigon o le i ddefnyddwyr eraill.
- Rhowch wybod am unrhyw rwystrau i'r Swyddfa Rhanbarth Goedwig neu Rheolwr Ardal Leol.
- Byddwch yn ymwybodol y gall defnyddwyr eraill hefyd gael llwybrau dynodedig yn yr ardal rydych yn ei ddefnyddio – sicrhewch yn gyntaf os fydd unrhyw amheuaeth.

ARWEINIAD

- Os ydych yn marchogaeth ar ben eich hun dywedwch wrth rywun lle'r rydych yn mynd a phryd fyddwch yn dychwelyd.
- Cariwch ffôn symudol rhag ofn y bydd argyfwng (cofiwch fod yna ddim neu ychydig o signal mewn rhai rhannau o'r goedwig)
- Edrychwch ar wefan CC Cymru am y wybodaeth ddiweddaraf ar ba gyfleusterau sydd ar gael. Os ydych mewn unrhyw amheuaeth ynglŷn â ble i farchogaeth cysylltwch a'r Swyddfa Rhanbarth Goedwig neu Rheolwr Ardal Leol.
- Fe anogir marchogwyr i gario yswiriant atebolrwydd drydydd person os ydych chi'n marchogaeth yng Nghoetiroedd Llywodraeth Cynulliad Cymru.
- Gwisgwch ddillad gwelededd uchel fel bod eraill yn medru eich gweld.

Ionawr 2005